



## **DATGANIAD NEWYDDION**

**MAWRTH 2022**

### **CORFF GWARCHOD IECHYD YN TYNNU SYLW AT EFFAITH COVID AR BROFIADAU PLANT O WASANAETHAU THERAPI IAITH A LLEFERYDD**

Heddiw, mae corff gwarchod gwasanaethau iechyd annibynnol Gogledd Cymru – Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru (CICGC) – wedi cyhoeddi ei adroddiad yn ffurfiol am brofiadau pobl o wasanaethau Therapi Iaith a Lleferydd (SALT) yn y rhanbarth.

Yn dilyn pryderon ffurfiol a godwyd am agweddau o wasanaeth SALT BIPBC, comisiynwyd ymchwiliad a gwnaed nifer o ganfyddiadau ac argymhellion. Mewn ymateb i argymhelliad bod BIPBC yn adolygu ei adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau a chleifion, gweithiodd CICGC mewn partneriaeth â'r bwrdd iechyd i gynnal cyfres o ddiwyddiadau gyda'r bwriad o gasglu barn cleifion, perthnasau a rhanddeiliaid eraill am y gwasanaeth SALT.

Yn ystod digwyddiadau 'gofod diogel' y corff gwarchod a gynhaliwyd yn rhithwir ac wyneb yn wyneb mewn nifer o leoliadau ledled Gogledd Cymru, rhannodd llawer eu profiadau o wasanaethau SALT ac yn arbennig sut yr oedd pandemig COVID-19 wedi effeithio ar y gwasanaeth.

Dywedodd Mr Geoff Ryall-Harvey, Prif Swyddog CICGC 'Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a oedd am siarad â ni am eu profiadau SALT yn rhieni i blant sy'n defnyddio'r gwasanaeth – yn bennaf am oedi wrth gael mynediad i'r gwasanaeth therapi iaith a lleferydd. Clywsom, yn dilyn y cyfnod clo cyntaf ledled y DU sy'n dechrau ar 23 Mawrth 2020, fod sesiynau i blant bron yn gyfan gwbl wedi dod i ben tan fis Medi 2020. Am y rhan helaeth o'r cyfnod hwn, ychydig iawn o gyswllt, os o gwbl, oedd rhwng teuluoedd a Therapyddion Iaith a Lleferydd. Yn ddiweddarach derbyniodd rhai gwasanaethau drwy gynhadledd fideo ond dywedodd rhai rhieni wrthym ei bod yn ymddangos bod gwasanaethau ond yn ailddechrau ar ôl Mis Medi 2020 am fod rhieni'n gyson yn galw am wasanaethau i'w plant ddechrau eto.'

'Dywedodd llawer o rieni wrthym eu bod yn teimlo bod eu plant wedi colli gwasanaethau ar adeg dyngedfennol yn eu datblygiad a bod hyn yn cael ei ddwysáu gan y diffyg rhyngweithio â phlant eraill oherwydd addysg gartref. Roedd rhai rhieni'n

teimlo bod eu plant wedi colli'r holl gynnydd a wnaed yn ystod y misoedd blaenorol a bod yr effaith ar ddatblygiad eu plentyn wedi bod yn ddinistriol.

Aeth Mr Ryall-Harvey ymlaen i ddweud 'Roedd rhieni'n cydnabod bod y pandemig wedi cyflwyno heriau eithafol i bawb, gan gynnwys SALT, a bod angen adleoli staff i ddelio â brechiadau a gofalu am gleifion sâl yn yr ysbyty. Fodd bynnag, roeddent hefyd yn teimlo y gellid bod wedi gwneud mwy i barhau i gysylltu â phlant sy'n defnyddio'r gwasanaeth, er mewn ffordd gyfyngedig, gan ddefnyddio fideo-gynadledda a thechnoleg ddigidol.'

'Mae lefelau staffio ac anawsterau recriwtio o fewn SALT, cyn ac yn ystod y pandemig, wedi bod yn her fawr i ddarparu'r gwasanaeth. Credwn mai oherwydd y bwlch hwn mewn therapi lleferydd plant, y mae'r rhan fwyaf o'n cyswllt â rhieni'r plant hynny.'

Dywedodd Gareth Evans, Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Therapiau a Gwyddorau Iechyd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr:

'I'n helpu i adeiladu ar y gwaith gwella sydd eisoes wedi'i wneud mewn gwasanaethau Therapi Iaith a Lleferydd, fe wnaethom ofyn i'r Cyngor Iechyd Cymuned gasglu adborth gan gleifion, eu gofalwyr a'u teuluoedd ar draws chwe sir Gogledd Cymru.'

'Er gwaethaf ein hymdrechion gorau i gynnal gwasanaethau a chefnogi cleifion, rydym yn cydnabod ac yn ymddiheuro am yr aflonyddwch a achoswyd i'n cleifion yn ystod COVID-19.'

'Er mwyn cadw cleifion a staff yn ddiogel, fe wnaethom ddilyn cyfarwydddebau Llywodraeth Cymru i atal gofal wedi'i gynllunio dros dro ar adegau brig critigol yn ystod y pandemig. Cafodd traean o'n staff Therapi Iaith a Lleferydd eu hadleoli yn ystod ton gyntaf y pandemig i gefnogi gwasanaethau hanfodol fel staffio wardiau COVID.'

Unwaith yr oedd technoleg 'Mynychu Unrhyw Le' ar gael i ni, roedd gwasanaethau Therapi Iaith a Lleferydd hanfodol i gleifion allanol yn ailddechrau naill ai'n bersonol neu'n rhithiol a sefydlwyd y lefel uchaf o weithgarwch rhithiol gleifion yn y Bwrdd Iechyd. Sefydlwyd llinellau cymorth ar gyfer cleifion pediatrig hefyd i ddarparu cyswllt uniongyrchol â gweithwyr proffesiynol i deuluoedd.

Aeth Mr Evans ymlaen i ddweud, 'Wrth inni ddod allan o'r pandemig, rydym yn gweithredu ein cynllun adfer COVID sy'n cynnwys clinigau estynedig a hyblyg, mwy o apwyntiadau o bell ac adolygu a blaenoriaethu cleifion y mae'r pandemig yn effeithio arnynt'.

Mae CICGC yn falch o glywed y bydd ei adroddiad yn sicrhau bod llais y claf yn rhan annatod o'r adolygiad cyffredinol o wasanaethau SALT.

Ychwanegodd Jackie Allen, Cadeirydd CICGC 'Rwy'n falch o lwyddiant rownd arall o ddigwyddiadau 'Gofod Diogel' a'n bod wedi gallu caniatáu i bobl rannu eu profiadau mewn ffordd gyfrinachol a strwythuredig. Edrychwn ymlaen yn awr at ddarganfod sut y bydd y Bwrdd Iechyd yn ystyried effaith ei wasanaethau ar fywydau pobl a sut y gall canfyddiadau ein hadroddiad wella profiad y claf.

Mae copi llawn o adroddiad CIGGC bellach i'w weld ar ei wefan  
<https://gogleddcymrucic.gig.cymru/files/salt-engagement-nwchc-final-report-cym-pdf/>

### **Nodyn i olygyddion**

1 Mae Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru yn sefydliad statudol annibynnol sy'n cynrychioli buddiannau cleifion a'r cyhoedd yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Ngogledd Cymru. Daeth i fodolaeth ar 1 Ebrill 2010 fel rhan o ad-drefnu gwasanaethau iechyd yng Nghymru ac mae'n cwmpasu siroedd Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Wrecsam ac Ynys Môn. Mae gan y chwe sir boblogaeth gyfunol o tua 675,500.

2 Mae gan y Cyngor Iechyd Cymuned chwe phwyllgor lleol, un yn cwmpasu pob un o'r chwe sir. Mae pob pwyllgor lleol yn cynnwys aelodau o dair ffynhonnell: cynghorwyr a enwebwyd gan yr awdurdod lleol perthnasol, pobl a enwebwyd gan sefydliadau'r sector gwirfoddol lleol a phobl leol a benodir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

### **Mwy o wybodaeth**

I gael rhagor o wybodaeth neu gyfweiliad â Mrs Jackie Allen, neu Mr Geoff Ryall- Harvey, cysylltwch â: Chyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru, ffôn: 01248 679284 neu E-bost: [carol.williams63@wales.nhs.uk](mailto:carol.williams63@wales.nhs.uk)

Diwedd